# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel
## Nos Fawrth, Hydref 4ydd 2022 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Mynach.

Presennol: Eifon Davies, Maldwyn Jones, Bethan Thomas, Alwyn Jones, Iolo V. Evans, Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Rita Jones, Dewi Pritchard a Gwenda Morris.

Cydymdeimlwyd a Gwynedd Jones yn dilyn ei brofedigaeth yn ddiweddar.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Medi 6ed 2il 2022) **CYMERADWYWYD.**

ii) Datgan Buddiant – **DIM**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Mynwentydd – **TREFNWYD I AIL YMWELD A'R MYNWENTYDD I ARCHWILIO'R CERRIG BEDDI.**
c) Gweithdai Ardal Ni 2035 – **CAFWYD ADRODDIAD GAN BETHAN THOMAS A OEDD WEDI MYNYCHU'R GWEITHDY.**
ch) Les Neuadd Sarnau - **EGLURODD Y CLERC EI BOD WEDI MYNYCHU CYFARFOD GYDA PHWYLLGOR Y NEUADD AC ROEDD Y LES RHWNG Y DDAU WEDI CAEL EI ARWYDDO.**

iv) Gohebiaeth
a) Amrywiol.
i) Dwr Cymru - Gwahoddiad i sesiwn friffio ar y gwaith hanfodol sydd angen ei gyflawni yng nghronfa ddŵr Llyn Celyn. **CYTUNODD ALWYN JONES A BETHAN THOMAS FYNYCHU'R SESIWN FRIFFIO.**
ii) Cyfoeth Naturiol Cymru - diweddariad gwaith diogelwch cronfa ddŵr Llyn Tegid.
iii) Parc Cenedlaethol Cymru – Ymgynghoriad ardaloedd cadwraeth sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
iv) Cyngor Gwynedd – Rhaglen waith yr adran priffyrdd a bwrdeistrefol.

v) Ceisiadau Cynllunio
**DIM CEISIADAU.**

vi) Materion Ariannol
a) Adroddiad Ariannol - **CYMERADWYWYD**
b) Taliadau – Cyngor Gwynedd (cost etholiad Mai 2022), Cyflog a chostau'r clerc, TWE - **CYMERADWYWYD**
c) Ceisiadau ariannol - Hosbis Tŷ Gobaith -- **CYTUNWYD I DDILYN Y DREFN ARFEROL A'I DRAFOD YN EIN CYFARFOD YM MIS MAWRTH**

vii) Materion lleol.
a) **CYTUNWYD I ANFON Y CWYNION I'R ADRANNAU PERTHNASOL.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH TACHWEDD 1AF YN NEUADD SARNAU.**